Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithio gyda'n gilydd er mwyn Plant (WT4C)

**Cafodd rhaglen Gweithio gyda'n gilydd er mwyn Plant (WT4C) ei chreu er mwyn helpu teuluoedd i ddeall beth sydd ei angen fwyaf ar blant pan fyddent yn gwneud trefniadau i dreulio amser gyda rhieni sydd wedi gwahanu neu aelodau pwysig eraill o'u teulu.**



## Nod WT4C yw:

### Galluogi plant a phobl ifanc i wneud y canlynol:

- Mwynhau perthnasau agos, sy'n eu meithrin, gydag aelodau pwysig o'r teulu, lle bynnag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.
- Cael plentyndod na chaiff ei ddominyddu gan wrthdaro rhwng rhieni.
- Cael y cyfle i roi barn (fydd yn addas i'w hoedran) pan gaiff penderfyniadau eu gwneud fydd yn effeithio arnynt.
- Ffynnu yn ystod plentyndod, gyda rhieni sy'n byw ar wahân.

## Cynnwys Rhaglen WT4C:

- Mae'n amlygu'r hyn sydd ei angen ar blant yn ystod y cyfnod y bydd rhieni yn gwahanu ac wedi hynny.
- Mae'n esbonio pwysigrwydd siarad â phlant; dweud wrthynt beth sy'n digwydd, gwrando arnynt a siarad â nhw am eu teimladau.
- Mae'n edrych ar gyfathrebu ymhlith rhieni a sut i ymateb yn briodol o dan bwysau.
- Mae'n herio rhieni i ystyried effaith emosiynol gwahanu a rhai opsiynau cadarnhaol er mwyn symud ymlaen.
- Mae'n cynorthwyo rhieni i weithio gyda'i gilydd er lles eu plant.



## Addasrwydd i Fynychu:

- Mae rhaglen WT4C ond yn addas lle nad oes risgiau diogelu ar y pryd a lle nad oes trais domestig a ffurfiau eraill o niwed yn bresennol.



## Y Trefniadau:

- Efallai y caiff rhieni / aelodau o'r teulu eu gorchymyn gan y Llys i fynychu rhaglen WT4C, neu gallai un o ymarferwyr Cafcass Cymru ei gynnig.
- Fel arfer, darperir y rhaglen o bell ond gall gael ei ddarparu wyneb yn wyneb, os yn briodol, i grŵp cymysg o rieni a gall gymryd hyd at bedair awr. Ni fydd rhieni sydd wedi gwahanu yn mynychu'r un grŵp ond mae'n bwysig bod y ddau riant yn mynychu'r rhaglen.
- Gofynnir i gyfranogwyr gwblhau ffurflen werthuso am eu profiad o'r rhaglen. Caiff hyn ei ddefnyddio gan Cafcass Cymru i wella ein gwasanaeth. Byddwn yn cysylltu hefyd chwe mis ar ôl cwblhau'r rhaglen er mwyn ein helpu i werthuso unrhyw effaith hirdymor a gaiff y rhaglen.
- Caiff mynychu'r rhaglen ei gadarnhau i'r llys neu i un o Ymarferwyr Cafcass Cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47007